# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 06/10/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Cyllideb ar gyfer Materion Gwledig

***7. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb ar gyfer materion gwledig yng Nghymru. OAQ(3)1164(RAF) Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yr wyf yn defnyddio'r gyllideb i gyflawni'r hyn sy'n flaenoriaeth i ni o ran ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un'. Mae cyllid wedi'i drefnu fel y gallwn fynd ati i gynnal rhaglen o ddileu TB, rhoi ymrwymiadau ynghylch y cynllun datblygu gwledig ar waith yn ogystal â chyflawni'r cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid.

*Atebwyd cwestiynau 8, 9 a 10 yn ystod y Cyfarfod Llawn.*

### Cynnyrch Cymreig

***11. David Lloyd:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnyrch Cymreig. OAQ(3)1153(RAF) W*

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gefnogi cynnyrch bwyd a diod Cymru drwy gefnogi nifer o fentrau, gan gynnwys bod yn bresennol mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd bwyd mawr a gaiff eu trefnu gan wobrau Gwir Flas a chefnogi gwyliau bwydydd a marchnadoedd ffermwyr.

### Hyrwyddo Cig-Oen

***12. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cig oen o Gymru mewn marchnadoedd rhyngwladol. OAQ(3)1160(RAF)*

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gefnogi'r gwaith o hybu bwyd Cymru, yn ogystal â chig oen cymru, mewn marchnadoedd rhyngwladol. Bu llawer o ffyniant ym maes allforio cig oen o Gymru dros y blynyddoedd diwethaf ac, yn 2009, yr oedd ei werth i economi Cymru yn £109 miliwn.

### Diwydiant Amaethyddol

***13. Angela Burns:*** *Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y diwydiant amaethyddol yn cael cefnogaeth ddigonol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1169(RAF)*

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi amrywiaeth o raglenni, cynlluniau a pholisïau sylweddol a chynhwysfawr ar waith er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a phroffidioldeb y diwydiant amaeth yng Nghymru yn yr hirdymor yn ogystal â sicrhau bod cynllun y taliad sengl yn cael ei weithredu'n effeithiol.

### *Farming and Countryside Education* a *Farms for Schools*

***14. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynhadledd Farming and Countryside Education a Farms for Schools ym mis Hydref 2010. OAQ(3)1149(RAF)*

**Elin Jones:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi unrhyw gymorth ariannol uniongyrchol i gynhadledd Farming and Countryside Education a Farms for Schools a gynhelir ym mis Hydref 2010. Fodd bynnag, yr wyf yn llwyr gefnogi eu nodau i addysgu plant a phobl ifanc ynghylch bwyd a ffermio mewn cefn gwlad cynaliadwy.

### Caffael Bwyd Lleol

***15. Veronica German:*** *Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd yn ddiweddar i gefnogi caffael bwyd lleol. OAQ(3)1173(RAF)*

**Elin Jones:** Yn ddiweddar, fe lansiais 'Rhoi Cynnig ar Flas o Gymru'—ymgyrch a drefnwyd gan archfarchnad Tesco yng Nghaerfyrddin. Yr oedd y digwyddiad yn tynnu sylw at gyflenwyr lleol sydd ar restr o gyflenwyr Tesco. Mae'n dangos yr hyn y mae'n bosibl i gynhyrchwyr bwyd a diod sy'n awyddus i gyflenwi eu nwyddau i archfarchnadoedd ei gyflawni.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Amddiffyn rhag Llifogydd

***11. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amddiffyn rhag llifogydd yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1388(ESH)*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Ers 2005, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi £8.6 miliwn i Asiantaeth yr Amgylchedd a £5.5 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo gyda chynlluniau i leihau llifogydd yn y de-ddwyrain. Bydd cynlluniau strategol a baratoir gan yr asiantaeth ac awdurdodau lleol yn nodi fframwaith ar gyfer mynd ati i lunio dull strategol o reoli perygl llifogydd.

### Allyriadau Diwydiannol

***12. Brian Gibbons :*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am allyriadau diwydiannol yng Nghymru. OAQ(3)1400(ESH)*

**Jane Davidson:** Mae gwella a rheoli'r allyriadau a ddaw o weithgareddau diwydiannol yn amcan pwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr unig dro y caiff gweithgareddau diwydiannol drwydded yw os ydynt yn gallu dangos eu bod wedi bodloni'r safonau amgylcheddol uchaf un. Mae disgwyl i ddiwydiannau allu dileu neu ostwng lefelau'r llygredd y mae eu gweithgareddau'n ei gynhyrchu hyd at safonau derbyniol.

### Aelwydydd ar Restri Aros Tai Cymdeithasol

***13. Jenny Randerson:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr aelwydydd ar restri aros tai cymdeithasol. OAQ(3)1385(ESH)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Nid Llywodraeth Cynulliad Cymru sy’n casglu ystadegau ynghylch aelwydydd sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol. Yr ydym yn sylweddoli bod pwysau ar y farchnad dai ar hyn o bryd ac mae mynd ati i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael i aelwydydd yn flaenoriaeth i ni a byddwn yn gwneud hyn drwy ychwanegu 6,500 o unedau fforddiadwy at ein stoc erbyn 2011. Dylai hyn gynorthwyo i leddfu’r pwysau sydd ar y rhestrau aros.

## Cyllideb

***14. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb ar gyfer yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yng Nghymru. OAQ(3)1395(ESH)*

**Jane Davidson:** Byddaf yn defnyddio’r gyllideb i gyflawni gwaith yn y meysydd sy’n flaenoriaeth i ni, gan gynnwys ein hymrwymiadau yn ‘Cymru’n Un’. Mae cyllid ar gael i’n helpu i wneud sawl peth: cyflawni safon ansawdd tai Cymru, defnyddio’r rhaglen Cefnogi Pobl i gynorthwyo unigolion sydd fwyaf agored i niwed, adfywio cymunedau a chyflawni ein cyfrifoldebau amgylcheddol, fel atal gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

## Gwarchod Pysgod

***15. Nick Ramsay:*** *Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i warchod pysgod sy’n claddu eu hwyau yn rhan isaf Afon Wysg. OAQ(3)1416(ESH) Trosglwyddwyd i’w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig.*

**Elin Jones:**Mae tîm troseddau amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn patrolio rhan isaf yr Afon Wysg yn ogystal â’r aber yn rheolaidd gyda chwch sy’n golygu bod y rheini sy’n ystyried herwhela pysgod sy’n symud i fyny’r afon i fwrw grawn yn gweld bod patrolau’n bodoli yn yr ardal ac mae hyn yn gweithredu fel math o rwystr ac mae’n golygu bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gallu casglu gwybodaeth am y gwaith a wnânt yn patrolio’r ardal. Hefyd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda’r heddlu i warchod stociau pysgod.